Cofrestrfa Tir EF
Cyfyngiad – cydsyniad neu dystysgrif

# RXC

## PWYSIG – DARLLENWCH

- **Defnyddiwch Ffurflen RXC fel rhan o gais i gofrestru gwarediad. Nid yw'n ffurflen gais annibynnol.**
- **Gallwch ddefnyddio'r ffurflen ym mhob sefyllfa lle mae cyfyngiad ar y gofrestr yn gofyn i gydsyniad neu dystysgrif gael eu darparu – mae hyn yn cynnwys tystysgrif i gydymffurfio â chyfyngiad Ffurf LL.**
- **I gael arweiniad ar sut i ddefnyddio'r ffurflen mewn perthynas â chyfyngiadau Ffurf LL, gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 19.**
- **Ni allwch ddefnyddio un ffurflen RXC i ddarparu cydsyniadau neu dystysgrifau mewn perthynas â theitlau lluosog.**

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn priflythrennau.**

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall, defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol ond mae canllawiau ar geisiadau i Gofrestrfa Tir EF (gan gynnwys ein cyfarwyddiadau ymarfer i drawsgludwyr) ar gael o www.gov.uk/land-registry.cy. Gallai fod yn ddefnyddiol i gyfeirio at Gyfarwyddyd Ymarfer 19 sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfyngiadau.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

| | |
|---|---|
| Rhowch rif teitl Cofrestrfa Tir EF a chyfeiriad yr eiddo yr effeithir arno gan y cyfyngiad. | 1 Rhif teitl:<br><br>Eiddo: |
| Fel rheol, bydd pob cyfyngiad yn dechrau gyda dyddiad mewn cromfachau. Dyma'r dyddiad yr ychwanegwyd y cyfyngiad at y gofrestr. Bydd pob cyfyngiad wedi ei rifo hefyd. Rhowch y dyddiad a ddangosir mewn cromfachau, os oes un, a rhif y cofnod.<br><br>Mae copi swyddogol o'r gofrestr yn cynnwys dyddiad yr argraffiad. Rhowch y dyddiad hwn neu, os ydych yn cyrchu'r gofrestr trwy 'Register View' yn My Portal rhowch y dyddiad a gewch fel dyddiad y gofrestr yn dangos y cofnodion sy'n bodoli. | 2 Cafodd y cyfyngiad:<br>(i) ei gofrestru ar<br>a<br>(ii) mae yn rhif cofnod yn y<br>☐ Gofrestr (Perchnogaeth) B ☐ Gofrestr (Arwystlon) C<br>ar *(rhowch ddyddiad argraffiad y gofrestr NEU'R dyddiad a ddangosir yn 'Register View').*<br>**NEU** *(os nad yw'r cyfyngiad wedi ei gofrestru eto)*<br>☐ mae wedi ei gynnwys yn y ddogfen ganlynol a gyflwynwyd i'w chofrestru:<br>Dogfen:<br>Dyddiad: |

Rhowch 'X' yn y blwch(blychau) priodol. Rhaid ichi gwblhau'r panel hwn yn llawn ac yn gywir gyda manylion yr unigolyn(unigolion) sy'n llofnodi panel 4 neu 5.

Gweler rheol 217A o Reolau Cofrestru Tir 2003 ar gyfer diffiniad y gair trawsgludwr.

Mae unigolyn wedi ei "enwi'n bersonol" pan fydd ei enw ei hunan (yn hytrach nag, er enghraifft, enw ei gyflogwr) yn ymddangos yn y cyfyngiad.

Mae "gweithredu ar ran rhywun arall" yn cynnwys trawsgludwr sy'n cynrychioli cyfyngwr, cyflogai neu asiant corfforaeth, neu atwrnai unigolyn neu gorfforaeth.

Bydd yn rhaid ichi ddarparu tystiolaeth bellach o'ch awdurdod i ddarparu'r cydsyniad neu dystysgrif gyda'r ffurflen hon os nad yw hyn yn glir fel arall.

Gall enghreifftiau o dystiolaeth briodol gynnwys atwrneiaeth neu grant profiant.

Gall cyflogai trawsgludwr roi tystysgrif ar gyfer cyfyngiad ffurf LL dim ond os yw'r cyflogai yn drawsgludwr a reoleiddir yn unigol. Gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 19.

Dim ond rhai unigolion all roi cydsyniad neu dystysgrif ar ran corfforaeth – gweler rheol 91B o Reolau Cofrestru Tir 2003.

Lle mae Cwmni Hawl i Reoli wedi ei benodi, gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 27.

Os yw un neu ragor o unigolion yn berchnogion cofrestredig y teitl y cyfeirir ato yn y cyfyngiad, rhowch "Perchennog(Perchnogion) Cofrestredig y teitl..." o dan "Statws".

Os yw perchennog cofrestredig y teitl yn gwmni, rhowch fanylion swydd yr unigolyn(unigolion) o fewn y cwmni sy'n rhoi'r cydsyniad neu dystysgrif o dan "Statws".

Os yw cydsyniad neu dystysgrif yn cael eu rhoi gan gyflogai neu asiant cwmni, rhowch gyfeiriad post y cwmni neu'r asiant a chyfeiriad ebost gwaith yr unigolyn sy'n rhoi'r cydsyniad neu dystysgrif o dan "Cyfeiriad".

3

*Os ydych wedi eich **enwi'n bersonol** yn y cyfyngiad, ticiwch y blwch cyntaf yn Rhan A. Nid oes rhaid cwblhau Rhan B.*

*Os **disgrifir eich statws yn y cyfyngiad**, ond nid ydych wedi eich enwi'n bersonol (er enghraifft mae'r cyfyngiad yn gofyn am gydsyniad neu dystysgrif gan 'drawsgludwr' neu 'berchennog cofrestredig' teitl penodol heb ei enwi), ticiwch y blwch cyntaf yn rhan A a chwblhau rhan B.*

*Os ydych yn gweithredu **ar ran** rhywun arall (er enghraifft fel trawsgludwr, neu fel gweithiwr neu asiant) ticiwch yr ail flwch yn Rhan A, dewiswch **un** o'r tri opsiwn priodol, a chwblhewch Ran B.*

**<u>Rhan A – Dewiswch un o'r ddau ddatganiad isod:</u>**

**NAILL AI**

☐ Rwy'n cadarnhau fy mod i/rydym ni wedi ein disgrifio yn y cyfyngiad fel rhywun/rhai sy'n gallu rhoi cydsyniad neu dystysgrif.

**NEU**

☐ Gallaf gydsynio neu roi'r dystysgrif ofynnol ar ran

(rhowch fanylion) oherwydd:

*Dewiswch **un** o'r tri opsiwn canlynol:*

☐ Rwy'n drawsgludwr a reoleiddir yn unigol sy'n gweithredu ar eu rhan
Rwy'n llofnodi'r ffurflen hon yn fy enw fy hunan
Rwyf wedi darparu fy manylion yn Rhan B.

☐ Rwy'n cael fy nghyflogi gan y trawsgludwr a reoleiddir sy'n gweithredu ar eu rhan
Rwy'n llofnodi'r ffurflen hon ac yn gweithredu ar ran fy nghyflogwr
Rwyf wedi darparu fy manylion yn Rhan B.

*Dewiswch yr opsiwn isod os ydych yn asiant, yn atwrnai neu'n gyflogai corfforaeth.*

☐ Mae fy statws (a ddisgrifir yn Rhan B), a/neu'r dystiolaeth ychwanegol rwyf wedi ei chyflwyno, yn cadarnhau fy mod wedi fy awdurdodi'n briodol i lofnodi'r ffurflen hon ar eu rhan yn fy enw fy hun.

**<u>Rhan B – Rhowch fanylion yr unigolyn sy'n llofnodi'r cydsyniad neu dystysgrif:</u>**

Enw:

Statws:
*(e.e. gweithiwr awdurdodedig / swyddog cwmni, cyfreithiwr, paragyfreithiwr, asiant, atwrnai ac ati)*

Cyfeiriad:

Rhif Rhôl a manylion y Rheoleiddiwr Cymeradwy (*os yw'n gymwys*):

**Rhaid ichi gwblhau naill ai:**

- **panel 4 os yw’r cyfyngiad yn gofyn am gydsyniad; neu**
- **panel 5 os yw’r cyfyngiad yn gofyn am dystysgrif.**

Rhowch fanylion yr holl waredidadau y mae’r cydsyniad yn ymwneud â nhw sy’n dod gyda’r cais hwn – er enghraifft, trosglwyddiad, prydles, rhoi neu ollwng hawddfreintiau, arwystl cyfreithiol neu forgais. Efallai yr hoffech nodi dyddiad y gwarediad a’r partïon, er enghraifft “trosglwyddiad dyddiedig [nodwch] a wnaed rhwng [nodwch]]”.

Os ydych yn darparu cydsyniad swmp mewn perthynas ag ystad sy’n datblygu, efallai yr hoffech nodi rhifau’r lleiniau penodol y mae’r cydsyniad yn gymwys iddynt, er enghraifft “Trosglwyddiad lleiniau 1-7 Maes Glas.”

Gellir defnyddio dalen barhau CS os yw mwy na dau unigolyn yn darparu’r cydsyniad.

4 Rwyf i/Rydym ni yn **cydsynio** i’r gwarediad(au) canlynol ac i’w cofrestriad:

1.

2.

3.

**Llofnod:** ______________________

*(yr unigolyn neu gwmni, fel sy’n gymwys)*

**Enw’r unigolyn sy’n llofnodi:**

**Dyddiad:**

**Llofnod:** ______________________

*(yr unigolyn neu gwmni, fel sy’n gymwys)*

**Enw’r unigolyn sy’n llofnodi:**

**Dyddiad:**

Rhowch fanylion yr holl waredadau y mae'r dystysgrif yn ymwneud â nhw sy'n dod gyda'r cais hwn – er enghraifft, trosglwyddiad, prydles, rhoi neu ollwng hawddfreintiau, arwystl cyfreithiol neu forgais. Efallai yr hoffech nodi dyddiad y gwarediad a'r partïon, er enghraifft “trosglwyddiad dyddiedig [nodwch] a wnaed rhwng [nodwch]]”.

Os ydych yn darparu tystysgrif swmp mewn perthynas ag ystad sy'n datblygu, efallai yr hoffech nodi rhifau'r lleiniau penodol y mae'r dystysgrif yn gymwys iddynt, er enghraifft “Trosglwyddiad lleiniau 1-7 Maes Glas.”

Os ydych yn anfon ffurflen RXC at drydydd parti i'w llofnodi, efallai byddai'n well gennych ddewis opsiwn C a nodi geiriad y dystysgrif ofynnol yn llawn. Ni ddylai'r dystysgrif fyth fod yn amodol.

Wrth ddarparu tystysgrif OE1 neu OE2 i gydymffurfio â chyfyngiad a gofnodwyd o dan ddarpariaethau Atodlen 4A i Ddeddf Cofrestru Tir 2002, rhaid ichi ddewis Opsiwn C a nodi geiriad llawn y dystysgrif.

Os yw geiriad y dystysgrif yn caniatáu ichi dystio y cydymffurfiwyd â darpariaethau penodol neu nad ydynt yn gymwys i warediad penodol, nid oes yn rhaid ichi nodi pa ddewis arall sy'n gymwys.

Rhaid i'r manylion a roddir ynghylch unigolyn yn llofnodi panel 5 gyfateb i'r rhai a roddir yn rhan B panel 3.

Rhaid i dystysgrif i gydymffurfio â chyfyngiad Ffurf LL gael ei llofnodi mewn inc gwlyb yn enw trawsgludwr unigol.

Gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 19 am ragor o wybodaeth am gydymffurfio â chyfyngiadau Ffurf LL.

Gellir defnyddio taflen barhad CS os yw mwy na dau berson yn darparu'r dystysgrif.

5 Mae'r dystysgrif hon yn ymwneud â'r gwarediad(au) canlynol:

1.

2.

3.

*Dewiswch **naill ai** Opsiwn A, Opsiwn B neu Opsiwn C isod ac ychwanegwch eich llofnod lle nodir hynny i ddarparu'r dystysgrif sy'n ofynnol gan y cyfyngiad.*

**A** ☐ Rwyf/rydym wedi darllen telerau'r cyfyngiad a nodir ym mhanel 2 y ffurflen hon. Trwy ddewis yr Opsiwn A hwn a llofnodi'r ffurflen hon, rwyf/rydym yn darparu'r dystysgrif sy'n ofynnol gan y cyfyngiad hwnnw. **(Peidiwch â defnyddio'r opsiwn hwn ar gyfer cyfyngiad Ffurf LL).**

**NEU –** ***os ydych yn drawsgludwr sy'n rhoi tystysgrif i gydymffurfio â chyfyngiad Ffurf LL***

**B** ☐ Tystiaf fy mod yn fodlon mai'r person a gyflawnodd y ddogfen a gyflwynwyd i'w chofrestru fel gwaredwr yw'r un person â'r perchennog **(trawsgludwr unigol i lofnodi isod MEWN INC GWLYB).**

**NEU –** ***dewiswch yr opsiwn canlynol os yw'n well gennych nodi telerau'r dystysgrif sy'n ofynnol gan y cyfyngiad.***

**C** ☐ Mae'r dystysgrif yr wyf/rydym yn ei rhoi, fel sy'n ofynnol gan delerau'r cyfyngiad, fel a ganlyn:

**Llofnod:**
*(yr unigolyn neu gwmni, fel sy'n gymwys)*

**Enw'r unigolyn sy'n llofnodi:**

**Dyddiad:**

**Llofnod:**
*(yr unigolyn neu gwmni, fel sy'n gymwys)*

**Enw'r unigolyn sy'n llofnodi:**

**Dyddiad:**

RHYBUDD
Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 08/24